




# Rheoli Tir yn Gynaliadwy

## Ein Ffermydd

Cyflwynwyd pymtheg fferm arddangos sydd wedi'u recriwtio ar gyfer y rhwydwaith Ein Ffermydd yn Sioe Frenhinol Cymru. Bydd pob prosiect ar y fferm yn cyd-fynd a chanlyniadau'r SLM.

Am ragor o wybodaeth am y ffermydd sy'n ffurfio'r rhwydwaith, edrychwch ar y [fideo cyflwyniad i'r rhwydwaith](#).



## Gwasanaeth Cynghori

Mae'r fframwaith yn cynnwys 16 categori gyda 350 o Ymgynghorwyr a Milfeddygon sydd wedi'u cymeradwyo i roi cyngor. Bydd y gwasanaeth yn rhoi cyngor arbenigol, annibynnol, cyfrinachol a phwrpasol i ffermwyr a thyfwrwr Cymru ac un o'r prif nodau fydd cynorthwyo gyda'r broses o bontio'n effeithiol i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd.

Cynllunio Busnes

8

wedi'u cefnogi

Technegol – Rheoli Glaswelltir a Chnwd

23

wedi'u cefnogi

Technegol Da byw

4

wedi'u cefnogi

## Cyllid Arbroti

Lansiwyd ffenestr ymgeisio cyntaf **Cyllid Arbroti Cyswllt Ffermio** gan roi cyfle i ffermwyr wneud cais am gyllid i wireddu eu syniadau sy'n berthnasol i ganlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM).

## Rhaglen Geneteg Defaid Cymru



Mae cyfanswm o 107 diadell wedi'i recriwtio i fod yn rhan o Raglen Geneteg Defaid Cymru yn ystod y cyfnod hwn. Nod y rhaglen yw gwella perfformiad y diadelloedd sy'n cymryd rhan, gan arwain at enillion uwch yn ariannol ac yn amgylcheddol, a gyflawnir drwy wella effeithlonrwydd cynhyrchu.

Mae amcanion y rhaglen yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r canolyniadau SLM canlynol, tra hefyd yn cyfrannu at ganlyniadau eraill, yn anuniongyrchol:

> Iechyd a lles anifeiliaid ar lefel fawr

> Allyriadau nwyon tŷ gwyr is

> Yn effeithlon o ran adnoddau

Mae diadelloedd sydd yn cymryd rhan yn y rhaglen ar hyn o bryd yn y broses o gwblhau Cynlluniau Gweithredu Bridio a fydd yn canolbwyntio ar nodi meysydd ar gyfer gwella ym mherfformiad y ddiadell. Gall enghraifft gynnwys lleihau'r dyddiau hyd lladd, a fyddai'n cyfrannu at leihau allyriadau nwyon tŷ gwyr, gan y byddai ŵyn ar y fferm am gyfnod byrrach bob tro. Bydd cwblhau'r cynlluniau hyn ar gyfer pob diadell unigol hefyd yn nodi meysydd ar gyfer gwella o fewn iechyd a lles anifeiliaid a all effeithio ar gynnydd geneteg. Mae'r rhai sy'n cymryd rhan hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd KT sy'n ymwneud â'r deilliannau SLM a amlinellir uchod. Enghraifft o hyn fyddai gweminar a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2023 a oedd yn canolbwyntio ar gyflwyno'r defnydd arferol o werthoedd bridio genomig, sydd hefyd yn cyd-fynd â Chynllun Sero Net 2021-25 Cymru Gyfan.

## Agrisgôp



Sefydlwyd 3 grŵp Agrisgôp yn ystod y cyfnod:

### Grŵp cynhyrchwyr moch

Nid yw cigyddion a pherchnogion tai bwyta yn Sir Benfro yn gallu dod o hyd i borc lleol a gyda'r rhan fwyaf o'r porc yn cael ei fewnforio o safonau is o arferion lles a magu. Mae'r grŵp Agrisgôp hwn yn edrych ar opsiynau ar sut i gynhyrchu a chyflenwi marchnad gydol y flwyddyn ar gyfer porc lleol o safon da. Maent yn edrych ar broffidoldeb a hyfywedd sefydlu grŵp busnes sy'n cynnwys cynhyrchwyr moch arbenigol bach i gyflenwi'r farchnad leol hon.

### Cyflenwad cig eidion Wagyu

Mae'r grŵp hwn yn dod â ffermwyr llaeth, ffermwyr sy'n magu lloi a thyfwrwr/gorffennwyr ynghyd sy'n ceisio gwneud y mwyaf o'r galw mawr am gig eidion wagyu arbenigol o safon uchel. Nod y grŵp yw datblygu cyflenwad gwydn o gig eidion o safon trwy fridio lloi Wagyu ac yna'n cyflenwi o fewn y grŵp sydd â naill ai allfeydd lleol neu ofyniad archfarchnad ar gyfer y cynnyrch.

### Effeithlonrwydd cig coch

Mae'r grŵp yn archwilio opsiynau a all leihau'r gost o fwydo biff a defaid. Maent yn ystyried tyfu a rheoli cnydau a phorfeydd amgen, a gwella bridio er budd yr amgylchedd a busnes fferm.



## Grwpiau Trafod

64 o Grwpiau Trafod a oedd yn cynnwys 750 Busnes

Bydd y grwpiau yn edrych ar bynciau a themâu amrywiol:



Tir âr  
2



Llaeth  
18



Cig coch  
40



Dofednod  
2



Arallgyfeirio  
2

## Mentora

137 o sesiynau mentora


Mae dyfyniadau o ddyddiaduron mentora yn cynnwys:

“Trafodaeth am “brofiad ar y fferm” a dod â phobl i'r safle. Mae'r mentorai yn dymuno gwella profiad gwesteion yn eu llety gwyliau.”

“Buom yn trafod hanes y fferm hyd yma, yr heriau y mae'r busnes a byd amaeth yn eu hwynebu a'r heriau y bu iddynt eu goresgyn a'r trawsnewidiad presennol o'r system ffermio o gynhyrchu nwyddau traddodiadol i werthu adfywiol ac uniongyrchol.”

“Llawer o drafodaethau ynghylch rheoli rheoliadau llygredd a sut i gydymffurfio â'r rheolau newydd. Trafod storio slyri, storio tail a dwyseddau stocio.”

## Digwyddiadau a Chyfathrebu



5	Agrigôp	9	Datganiad i'r Wasg
3	Asesiadau Busnes	8	Sioeau ac Arddangosiadau
1	Astudiaeth Achos	14	Ymwybyddiaeth Strategol
1	Clinig	22	Cymorthfeydd
2	Cyfarfodydd teuluol ar olyniaeth a hwyluswyd	1	Cyhoeddiad Technegol

Cyhoeddir yr holl erthyglau, fideos, cyhoeddiadau technegol a phodlediadau ar **wefan Cyswllt Ffermio**.

### Clust i'r Ddaear



#### Rhifyn 80:

Jim Elizondo Real Wealth Ranching – ‘A allwn wneud y mwyaf o elw fferm tra hefyd yn gwella'r amgylchedd?’



#### Rhifyn 81:

Dyfodol moesegol Llaeth.



#### Rhifyn 83:

Sgwrs gyda Dr Iwan Owen – Deugain mlynedd o ddarlithio rheoli glaswelltir ym Mhrifysgol Aberystwyth.

### Astudiaeth Achos

Mae cofnodi perfformiad yn cyflymu cynnydd geneteg ac allbwn mewn diadell fynydd yng Nghymru, gyda chynnydd yn cael ei wneud ar y pen uchaf yn treiddio trwy'r ddiadell gyfan o anifeiliaid pedigri a masnachol

“Pe baem ni eisiau cyrraedd y brig, doeddwn i ddim eisiau gorfod pwmpio anifail â phorthiant, penderfynais fod cofnodi perfformiad yn ffordd fwy dilys o gyflawni hynny ac yn fasnachol y mwyaf hyfyr, ac mae'n debyg mai dyna'r sefyllfa.”

“Er nad yw ein hyrddod yn gwneud miloedd ar filoedd fel rhai yn y gwerthiannau traddodiadol, mae gennym ni gyfartaledd cadarn a gyda'r strwythur prisio sefydlog nid ydym yn gwerthu unrhyw hyrddod sy'n is na'r gost cynhyrchu.”

